

Fframwaith Aseu Ansawdd ar gyfer Cymru

Gorffennaf 2019



Cyflwyniad

1. Mae'r Fframwaith Asesu Ansawdd (QAF) ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru yn nodi'r mecanweithiau a ddefnyddir gan CCAUC i roi sicrwydd iddo'i hun fod ansawdd addysg, neu gwrs addysg, a ddarperir gan neu ar ran sefydliadau rheoleiddiedig, yn bodloni anghenion y rhai sy'n ei dderbyn. Mae'n disgrifio sut mae CCAUC yn rhoi ystyriaeth i'w gyfrifoldeb statudol dros sicrhau bod yr asesiadau'n cael eu cynnal o'r ddarpariaeth a gynigir gan neu ar ran sefydliadau rheoleiddiedig, a sut y gallwn gael sicrwydd ynghylch ansawdd pan fydd sefydliad yn gwneud cais am Gynllun Ffioedd a Mynediad.
2. Bydd y Fframwaith yn parhau i gael ei ddiweddarau fel bo'n briodol, gan roi sylw i waith ymgynghori, felly ***cyfrifoldeb defnyddwyr fydd sicrhau eu bod yn defnyddio'r fersiwn ddiweddaraf***. Wrth gyhoeddi diweddariadau, byddwn yn nodi hynny'n glir ar ein [gwefan](#).
3. Mae CCAUC wedi derbyn cadarnhad bod y Fframwaith yn bodloni gofynion y Swyddfa Gartref ar gyfer goruchwyliaeth addysgol. Mae hyn yn golygu bod sefydliadau rheoleiddiedig yn bodloni'r gofynion ansawdd ar gyfer statws Haen 4.

Y Cefndir

4. Mae [Deddf Addysg Uwch \(Cymru\) 2015](#) (Deddf 2015) yn nodi ymyraethau sy'n berthnasol pan fo CCAUC yn fodlon bod ansawdd addysg neu gwrs a darperir gan, neu ar ran, sefydliad rheoleiddiedig yn annigonol, neu'n debygol o ddod yn annigonol, i fodloni anghenion rhesymol y myfyrwyr. Manylir ar y rhain yn Natganiad Ymyrraeth [CCAUC](#).

Meysydd cymaroldeb o fewn y DU

5. Bydd y Fframwaith Asesu Ansawdd yn sicrhau'r gallu i 'ddarllen ar draws' y DU drwy'r mecanweithiau cyffredin a ganlyn:
 - Safonau cyffredin ar gyfer graddau, drwy Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch i'r DU gyfan (FHEQ);
 - System arholi allanol gryfach;
 - Ymagwedd gyffredin at elfennau'r Gofynion Rheoleiddio Sylfaenol sy'n gysylltiedig ag ansawdd;
 - Y Darparwyr Addysg Uwch, gyda thrafodaethau'n parhau rhwng y partiön sy'n rheoleiddio addysg uwch, er mwyn symud tuag at ymagwedd sy'n fwy cyffredin drwy'r DU gyfan;
 - Galluogi sefydliadau yng Nghymru i gymryd rhan yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu, os ydynt yn dymuno.
6. Wrth ddatblygu'r gwaith hwn, mae CCAUC wedi monitro datblygiadau yn rhannau eraill o'r DU er mwyn gwerthuso unrhyw effaith ar Gymru, a bydd yn parhau i wneud hynny. Byddwn hefyd yn gweithio i sicrhau na fydd unrhyw newidiadau i'r

Asesiad Ansawdd (QA) yng Nghymru yn cael effaith niweidiol ar enw da'r ddarpariaeth yn rhyngwladol.

Y Prif Nodweddion

7. Dyma brif nodweddion y fframwaith asesu ansawdd ar gyfer Cymru:
 - (i) Cael gwared ag ymweliadau adolygiad cymheiriaid cylchol a gomisiynir gan gyrff ariannu i ail-brofi gofynion ansawdd sylfaenol darparwyr sefydledig;
 - (ii) Ail-lunio prosesau adolygu'r darparwydd ei hun er mwyn sicrhau bod y rheiny'n canolbwyntio ar wella deilliannau a phrofiadau academaidd myfyrwyr;
 - (iii) Rhoi mwy o bwyslais ar rôl gyrff llywodraethu o ran rhoi sicrwydd ynghylch materion ansawdd a safonau;
 - (iv) Defnydd mwy systematig o ddata myfyrwyr a data arall gan gyrff ariannu a rheoleiddio er mwyn monitro perfformiad darparwyr;
 - (v) Defnyddio mecanweithiau sicrwydd gyrff ariannu a rheoleiddio presennol.
8. Wrth fynd i'r afael â chyfrifoldebau statudol CCAUC dros ansawdd byddwn yn defnyddio'r [Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd](#) (ESG) fel prif ddogfen gyfeiriol.

Egwyddorion

9. Dyma egwyddorion y fframwaith: Mae'r system asesu ansawdd:
 - (i) Yn seiliedig ar roi rhyddid i ddarparwyr addysg uwch â phwerau i ddyfarnu graddau bennu a chynnal safonau academaidd, ac ar gyfrifoldeb yr holl ddarparwyr i greu a chyflenwi'r profiad academaidd mwyaf priodol i'w myfyrwyr, beth bynnag fo'u lleoliad a'u dull astudio;
 - (ii) Yn defnyddio adolygiadau gan gymheiriaid a gwaith craffu allanol priodol fel elfen graidd o ymagweddau asesu a sicrwydd ansawdd;
 - (iii) Yn cynnwys myfyrwyr fel partneriaid yn y gwaith o ddylunio, gweithredu, monitro ac adolygu prosesau i wella ansawdd eu haddysg;
 - (iv) Yn sicrhau atebolrwydd, gwerth am arian, a sicrwydd hawdd ei ddeall i fyfyrwyr a chyflogwyr, y llywodraeth a'r cyhoedd, mewn meysydd sydd o bwys i'r rhanddeiliaid hynny, yn gysylltiedig â darparwyr unigol a hefyd ar draws y sector yn ei gyfanrwydd;
 - (v) Yn gweithio'n dda ar gyfer cenadaethau amrywiol a gwahanol, a mathau o ddarparwyr, ac yn sicrhau bod darparwyr yn gallu arbrofi ac arloesi mewn cyfarwyddyd strategol neu ymagweddau at ddysgu ac addysgu;
 - (vi) Yn mabwysiadu ymagwedd seiliedig ar risg a thystiolaeth at gydreoleiddio er mwyn sicrhau bod gwaith craffu rheoleiddio yn canolbwyntio ar y meysydd lle ceir y risg fwyaf, neu'r potensial mwyaf am risg, i safonau ac/neu i brofiadau academaidd myfyrwyr neu'r system;
 - (vii) Yn ymyrryd yn fuan ac yn gyflym, ond mewn modd cymesur pan fydd pethau'n mynd o chwith;
 - (viii) Yn rhoi cymorth i ddarparwyr newydd neu ddarparwyr llai aeddfed, gan sicrhau bod y trothwy er mwyn cael mynediad i'r sector wedi'i bennu ar lefel sy'n ddigonol ar gyfer profiad academaidd priodol a safonau gradd sicr;
 - (ix) Yn defnyddio sylfaen gadarn o dystiolaeth i sicrhau bod yr holl darparwyr yn adnabod cyfleoedd am welliant parhaus ac yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hynny;
 - (x) Yn cynnal ymagwedd drwy'r DU, hyd y bo hynny'n bosibl o fewn system ddatganoledig;

- (xi) Yn gwarchod enw da system addysg uwch y DU mewn cyd-destun byd-eang;
- (xii) Yn sicrhau bod cyfanswm cost a baich yr asesiad ansawdd a'r system sicrhau ansawdd ehangach yn gymesur.

Gofynion rheoleiddio sylfaenol

10. Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd y cyrff ariannu yn Lloegr a Gogledd Iwerddon fodel gweithredu diwygiedig ar gyfer asesu ansawdd, i'w weithredu o 2016/17. Roedd cyfres o ofynion rheoleiddio sylfaenol yn sail i'r model hwn, a oedd yn cynnwys pwyntiau cyfeirio allanol a oedd eisoes yn bodoli yn y tirlun addysg uwch. Cynlluniwyd y gofynion i sicrhau bod pob darparydd sy'n gweithredu yn y system addysg uwch yn gallu rhoi profiad academaidd o ansawdd uchel i fyfyrwyr, gwarchod safonau graddau a buddiannau myfyrwyr yn fwy cyffredinol.
11. Mae'r gofynion rheoleiddio sylfaenol yn elfen graidd o'r ymagwedd at asesu ansawdd addysg uwch yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Er bod cyfres wahanol o ofynion rheoleiddio yn berthnasol yn Yr Alban (o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch (Yr Alban) 2005), mae'r pedair gwlad oll yn cytuno â'r egwyddorion craidd a gynrychiolir yn y gofynion. Maent hefyd yn cytuno â'r canlynol: bod gan fyfyrwyr hawl i fwynhau profiad academaidd o ansawdd uchel; y dylid gwarchod buddiannau myfyrwyr; ac y dylid bod modd cymharu safonau graddau ar draws y DU. Bydd y llinell sylfaen yn parhau i gael eu hadolygu er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn briodol mewn ymateb i ddatblygiadau yng ngwahanol wledydd y DU.
12. Dyma'r gofynion sylfaenol:
 - Y fframweithiau ar gyfer cymwysterau addysg uwch, fel y'u nodir yng Nghod Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch;
 - Disgwyliadau Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU;
 - Y cod llywodraethu perthnasol;
 - Rhwymedigaethau perthnasol y darparwyr o dan y gyfraith defnyddwyr;
 - Y fframwaith ymarfer da perthnasol ar gyfer ymdrin â chwynion ac apelau academaidd;
 - Gofynion y corff ariannu o ran rheoli, llywodraethu a chynaliadwyedd ariannol, a'r genhadaeth a'r strategaeth ar gyfer darpariaeth addysg uwch.Ceir hefyd rai gofynion sylfaenol sy'n berthnasol i Gymru yn unig, fel a ganlyn:
 - Gofynion o ran y Gymraeg;
 - Alinio â Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru;
 - Arferion craidd a chyffredin o fewn y Cod Ansawdd, datganiadau nodweddiol a datganiadau meincnodi pwnc, lle bo'n briodol.
13. Mae [Pwyllgor Sefydlog y DU ar gyfer Asesu Ansawdd](#) (UKSQA) wedi cael ei ffurfio, gan ddod â'r pedwar corff ariannu ynghyd â chyrff sy'n cynrychioli'r sector a myfyrwyr. Mae'r pwyllgor yn rhoi ystyriaeth ar raddfa'r DU i drefniadau asesu ansawdd, gan gynnwys gofynion rheoleiddio sylfaenol cyffredin.

Materion trawsbynciol

14. Mae'r materion trawsbynciol yn cynnwys:
- Yr angen i gadw'r ymdeimlad o system ansawdd sy'n bodoli ar raddfa'r DU, hyd y bo hynny'n bosibl mewn amgylchedd datganoledig lle bo'r safbwyntiau o ran polisi yn amrywio'n gynyddol;
 - Yr angen i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â'r disgwyliadau rhyngwladol o ran ansawdd, yn enwedig yn Ewrop;
 - Rôl hanfodol myfyrwyr fel partneriaid wrth ddylunio a chynnal trefniadau asesu ansawdd;
 - Dylunio a gweithredu system gyfun gydlynol sy'n integreiddio ymagwedd cyrff ariannu a rheoleiddio'r DU at asesu ansawdd a threfniadau Llywodraeth Lloegr ar gyfer y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a Deilliannau Myfyrwyr (TEF).

Y Fframwaith

15. Mae'r Fframwaith yn cynnwys:
- Porth ar gyfer mynediad ar gyfer sefydliadau sy'n dymuno cael eu rheoleiddio am y tro cyntaf, neu wneud cais am Gynllun Ffioedd a Mynediad;
 - Trefniadau ar gyfer darparwyr sefydledig, sy'n adeiladu ar ymagweddau sefydledig a phroffedig at feincnodi a dadansoddi data, casglu gwybodaeth (gan gynnwys gwybodaeth gan fyfyrwyr), asesu risg a sicrwydd;
 - Trefniadau cryfach i sicrhau safonau gradd a'r gallu i'w cymharu ar draws y DU i raddau rhesymol, o dan arweiniad cyrff sy'n cynrychioli'r sector;
 - Ymyrraeth gyflym ac wedi'i chynllunio'n arbennig lle bo angen;
 - Gwarchod enw da brand addysg uwch y DU ar raddfa ryngwladol, gan gynnwys sicrwydd ar gyfer addysg drawswladol.
16. Rydym wedi cyflwyno'r Fframwaith yn Nangosyn 1 (ac yn **Atodiad A**, er rhwyddineb wrth gyfeirio). Bydd angen i ddarparwyr sydd am fod wedi'u rheoleiddio dderbyn adolygiad Porth er mwyn bod yn ddarparydd rheoleiddiedig am y tro cyntaf, neu wneud cais am Gynllun Ffioedd a Mynediad. Ar ôl iddynt gael eu rheoleiddio, bydd yn rhaid i ddarparwyr gadw at holl agweddau'r Fframwaith. Nid yw'r prosesau mewn unrhyw drefn benodol. Ceir mwy o wybodaeth isod am bob agwedd.

Dangosyn 1. Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru

Fframwaith Asesu Ansawdd				
Porth	Trefniadau ar gyfer darparwyr sefydledig	Ymyrraeth gyflym sydd wedi'i chynllunio'n arbennig	Safonau a Chymaroldeb Graddau	Enw Da yn Rhyngwladol
<ul style="list-style-type: none"> Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru 	<ul style="list-style-type: none"> Trefniadau adolygu ar sail risg Craffu ar ddata Sicrwydd blynyddol gan y corff llywodraethu. Ymweliadau teirblynyddol Gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr 	<ul style="list-style-type: none"> Proses gwyno CCAUC Canllawiau Pwyllgor Asesu Ansawdd CCAUC 	<ul style="list-style-type: none"> Deall Algorithmau Graddau Chwyddo / Gwella Graddau Dosbarthiad Graddau ledled y DU: datganiad o fwriad Datganiadau sefydliadol ar safonau gradd Arholi allanol, datblygiad proffesiynol a graddnodi 	<ul style="list-style-type: none"> Pwyllgor Sefydlog y DU ar gyfer Asesu Ansawdd Goruchwyliaeth draws-wladol

Porth i sefydliadau sydd yn dymuno cael eu rheoleiddio am y tro cyntaf, neu sydd am wneud cais am Gynllun Ffioedd a Mynediad.

- O 2017/18 mae'n ofynnol i sefydliadau dderbyn [Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru](#) gan gorff a bennir gan CCAUC, sef y Quality Assurance Agency for Higher Education¹ ar hyn o bryd. Efallai y bydd sefydliad sy'n cwblhau adolygiad porth yn llwyddiannus yn dymuno ymgeisio am [ddynodiad penodol](#), sy'n galluogi myfyrwyr i gyrchu cymorth i fyfyrwyr ar gyfer cyrsiau AU penodedig, ar yr amod eu bod yn bodloni gofynion eraill ar gyfer y broses honno.
- Fel arfer, bedair blynedd ² ar ôl yr adolygiad porth cychwynnol, caiff y sefydliad gomisiynu adolygiad porth pellach. Os bydd yr adolygiad hwnnw'n llwyddiannus, tybir bod y sefydliad wedi bodloni gofynion sicrwydd ansawdd CCAUC cyn ymgeisio am Gynllun Ffioedd a Mynediad³. Os yw sefydliad yn llwyddo i ymgeisio am Gynllun Ffioedd a Mynediad, bydd gan ei fyfyrwyr ar ei holl raglenni AU llawnamser fynediad at y pecyn llawn o gymorth i fyfyrwyr is-raddedig.

¹Gweler Cylchlythyr W17/40HE https://www.hefcw.ac.uk/publications/circulars/circulars_2017_cy.aspx. Bydd unrhyw ddiweddariadau i hyn ar gael yn www.hefcw.ac.uk/policy_areas/learning_and_teaching/qa_fa_wa.aspx

²Os oes gan sefydliad adolygiad QAA blaenorol, gallai hynny fodloni rhai o'r gofynion - ceir gwybodaeth bellach am hyn yng nghylchlythyr W17/40HE

³Mae'n rhaid i ymgeiswyr cynlluniau ffioedd a mynediad fod yn sefydliad yng Nghymru sy'n darparu addysg uwch ac sy'n elusen. Mae'n rhaid i ymgeiswyr hefyd ddarparu gwybodaeth ynghylch ei hyfywedd ariannol, a'r trefniadau ar gyfer rheoli a threfnu ei faterion ariannol. https://www.hefcw.ac.uk/working_with_he_providers/he_wales_act_2015/fee_and_access_plan_cy.aspx

Trefniadau ar gyfer darparwyr sefydledig

19. Yng Nghymru, ystyrir bod sefydliadau rheoleiddiedig yn ddarparwyr sefydledig. Mae trefniadau ar gyfer y darparwyr hyn yn cynnwys: trefniadau adolygu ar sail risg; craffu ar ddata; sicrwydd blynyddol gan y corff llywodraethu; ymweliadau teirblynyddol; a monitro'r trefniadau partneriaeth rhwng y corff myfyrwyr ac addysg uwch. Gall craffu gynnwys ansawdd y ddarpariaeth ar lefel rhaglen neu gwrs, lle bo'n briodol ac yn ymarferol.

Trefniadau adolygu ar sail risg

20. Mae'n ofynnol i sefydliadau rheoleiddiedig gomisiynu adolygiad sicrwydd ansawdd allanol bob chwe blynedd o leiaf.
21. Mae'r gofyniad am adolygiad sicrwydd ansawdd allanol yn mynd i'r afael â chyfrifoldebau CCAUC i sicrhau asesiad o ansawdd addysg a ddarperir gan ac/neu ar ran sefydliadau rheoleiddiedig. Mae'n rhoi'r sicrwydd sy'n ofynnol o dan Ddeddf 2015 o ran ansawdd, er mwyn galluogi cymeradwyo Cynlluniau Ffioedd a Mynediad, ac felly i sefydliadau rheoleiddiedig gyrchu cymorth i fyfyrwyr ar gyfer cyrsiau TAR ac is-raddedig llawnamser.
22. Mae'n rhaid i'r adolygiad sicrwydd ansawdd allanol gydymffurfio â gofynion yr ESG ar gyfer adolygiadau o'r fath. Mae'r ESG yn galluogi darparwyr addysg uwch i arddangos ansawdd a chynyddu tryloywder, gan helpu i feithrin cydymddiriedaeth a chydabyddiaeth well o'u cymwysterau, eu rhaglenni a darpariaeth arall. Defnyddir yr ESG gan sefydliadau ac asiantaethau sicrwydd ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop fel dogfen gyfeiriol ar gyfer systemau sicrwydd ansawdd mewnol ac allanol addysg uwch.
23. Mae rhagor o wybodaeth am y gofynion adolygu ar gael ar ein [gwefan](#)⁴. Mae Cylchlythyr W19./05HE yn disgrifio sut y defnyddir dyfarniadau'r adolygiad y sail wrth asesu risg.
24. Mae Prifysgolion Cymru wedi sefydlu trefniant fframwaith â'r [Quality Assurance Agency for Higher Education \(QAA\)](#) er mwyn cyflenwi'r adolygiad sicrwydd ansawdd allanol hwn. Ceir ffocws cryf ar wella yn yr adolygiad. Mae Prifysgolion Cymru wedi rhoi'r dewis i sefydliadau eraill sydd wedi'u rheoleiddio gael cymryd rhan yn y trefniadau hyn.

Craffu ar ddata

25. Mae CCAUC yn craffu ar ddata, safbwyntiau myfyrwyr a chudd-wybodaeth arall, a'r wybodaeth a gesglir drwy brosesau atebolrwydd blynyddol CCAUC (gan gynnwys y ffurflen atebolrwydd flynyddol) Cyflawnir llawer o'r gwaith hwn drwy broses adolygu risg sefydliadol CCAUC, fel y'i nodir yn ein Gweithdrefnau ar gyfer asesu ansawdd addysg (Cylchlythyr [W19/05HE](#)).

⁴ https://www.hefcw.ac.uk/policy_areas/learning_and_teaching/ga_fa_wa_cy.aspx

26. Mae'r data a ystyrir gan CCUAC yn gysylltiedig â'i gyfrifoldebau rheoleiddio yn cynnwys y canlynol:
- Patrymau gor-recrwtio/tanrecrwtio;
 - Cyfraddau nad ydynt yn symud ymlaen;
 - Cyfraddau nad ydynt yn cwblhau;
 - Canlyniadau'r Arolwg Myfyrwyr Blynyddol;
 - Canlyniadau graddau, gan gynnwys canlyniadau wedi'u gwahaniaethu yn ôl myfyrwyr â gwahanol nodweddion;
 - Deilliannau cyflogaeth;
 - Canlyniadau'r TEF, i sefydliadau sydd wedi dewis cymryd rhan
27. Bydd y dadansoddiad hefyd yn cynnwys adnabod tueddiadau mewn data, ynghyd â hanes sefydliadau o lwyddo yn y gorffennol. Fodd bynnag, nid data yn unig fydd y sail ar gyfer y dyfarniadau hynny.
28. Drwy ddefnyddio data yn y modd hwn, bydd modd nodi materion yn gysylltiedig â grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Bydd ein Pwyllgor Asesu Ansawdd (QAC) yn ystyried y data hynny ar gyfer sefydliadau a reoleiddir ac yn rhoi cyngor ar unrhyw faterion sy'n codi. Mae hyn yn cynnwys ystyried sefyllfaoedd lle mae sefydliadau wedi sicrhau canlyniadau sy'n uwch na'r meincnodi, a lle gellid rhannu arfer da. Defnyddir cyngor gan y QAC yn sail ar gyfer dyfarniadau ym mhroses adolygu risg sefydliadol CCAUC, ac ym mhroses benderfynu'r Cyngor.

Sicrwydd blynyddol gan y corff llywodraethu.

29. Mae'n ofynnol i gyrrff llywodraethu sefydliadau rheoleiddiedig roi sicrwydd blynyddol i CCAUC ynghylch ansawdd. Gofynnir iddynt gadarnhau'r datganiadau a ganlyn yn flynyddol.
- 1 Mae'r corff llywodraethu wedi derbyn adroddiad sy'n ystyried yr adolygiad sicrwydd ansawdd allanol, ac mae cynllun gweithredu wedi'i greu a'i roi ar waith fel bo'n briodol, mewn partneriaeth â'r corff o fyfyrwyr.
 - 2 Hyd eithaf ein gwybodaeth, mae'r methodolegau a ddefnyddiwyd yn sail i wella profiad academiaidd a deilliannau myfyrwyr yn gadarn a phriodol.
 - 3
 - a) *I ddarparwyr â phwerau i ddyfarnu graddau:* Mae safonau'r dyfarniadau yr ydym yn gyfrifol amdanynt wedi'u gosod a'u cynnal yn briodol.
 - b) *I ddarparwyr heb bwerau i ddyfarnu graddau:* Mae safonau'r dyfarniadau yr ydym yn gyfrifol amdanynt wedi'u cynnal yn briodol.
 - 4 Mae'r corff llywodraethu wedi ystyried adroddiad ar y deialog blynyddol rhwng y sefydliad ac Undeb y Myfyrwyr neu gorff cyfatebol, wedi craffu ar ganlyniadau'r arolwg myfyrwyr ac wedi cadarnhau bod cynlluniau gweithredu wedi'u creu a'u rhoi ar waith, mewn partneriaeth â'r corff a fyfyrwyr.
 - 5 Mae'r corff llywodraethu wedi derbyn copi o'r cytundeb perthynas rhwng y sefydliad ac Undeb y Myfyrwyr neu gorff cyfatebol, a chopi o'r siarter

myfyrwyr, ac mae'r naill a'r llall wedi cael eu hadolygu o fewn y flwyddyn ddiwethaf.

30. Pwrpas y datganiadau hyn gyda'i gilydd yw sicrhau bod y sefydliad yn cadw ffocws priodol ar wella, ac ar weithio mewn partneriaeth â'r corff o fyfyrwyr. Os na all corff llywodraethu roi'r sicrwydd hwn, gallai hynny fod yn arwydd bod y ddarpariaeth yn (debygol o fod) yn annigonol (yn y dyfodol).⁵ Bydd swyddogion yn triogli'r datganiadau hyn yn rhan o'r ymweliadau sicrwydd teirblynyddol (gweler isod), a bydd canlyniadau'n cael eu hystyried yn rhan o broses yr Adolygiad Risg Sefydliadol a'r Cynllun Ffioedd a Mynediad.

Ymweliadau sicrwydd teirblynyddol

31. Mae CCAUC wedi cyflwyno elfen sicrwydd ansawdd i ymweliadau sicrwydd teirblynyddol â sefydliadau.⁶ Bydd hyn yn sail ar gyfer ymweliadau sefydliadol y Cyngor ac i ymweliadau a phrosesau sicrwydd eraill. Bydd hefyd yn llywio ein proses adolygu risg sefydliadol⁷, y cynghorir yn ei gylch gan ein QAC, ac yn llywio'r llythyr risg blynyddol i'r darparwydd yn sgil hynny. Bydd hefyd yn llywio gwaith asesu cynlluniau ffioedd a mynediad a gyflwynir yn flynyddol. Bydd ein hymgysylltiad â sefydliadau yn dilyn y dadansoddiad hwn yn seiliedig ar risg ac yn gymesur.
32. Mae'r ymweliad teirblynyddol yn golygu ymweld â'r sefydliad a chynnal cyfarfodydd ar wahân â'r canlynol:
- Undeb y Myfyrwyr a chynrychiolwyr;
 - Aelodau'r Corff Llywodraethu;
 - Aelodau'r Uwch Dîm Rheoli, gan gynnwys staff sy'n gyfrifol am ansawdd.
33. Mae'r ymweliad yn rhoi cyfle i'r sefydliad ddarparu gwybodaeth am ei weithgarwch gwella, er mwyn dangos sut mae'n bodloni anghenion newidiol myfyrwyr. Y dilyn hynny bydd swyddogion CCAUC yn llunio adroddiad a gyflwynir ar ffurf drafft i'r sefydliad i'w alluogi i dynnu sylw at wallau. Cyflwynir yr adroddiad terfynol i'r QAC er mwyn cael cyngor, ac fe'i cyflwynir hefyd i'r Cyngor er mwyn llywio ei waith ymgysylltu â sefydliadau.
34. Mae swyddogion yn disgwyl y bydd corff llywodraethu'r sefydliad hefyd yn ystyried yr adroddiad hwn.

Gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr

35. Mae trefniadau partneriaeth rhwng y corff o fyfyrwyr a darparwyr addysg uwch yng Nghymru wedi'u datblygu'n dda. Mae hyn yn creu ystod o gyfleoedd i fyfyrwyr godi materion yn gysylltiedig ag ansawdd, gan gynnwys drwy adolygiad sefydliadol, prosesau'r sefydliad ei hun, y corff llywodraethu neu'n uniongyrchol â CCAUC.

⁵ Mae gwybodaeth ar gael am hyn yng nghylchlythyr [W17/07HE](#) ac [Atodiad A: Datganiadau Sicrwydd Ansawdd ar gyfer Cyrrff Llywodraethu Sefydliadau a Reoleiddir](#)

⁶ Ceir mwy o wybodaeth yn www.hefcw.ac.uk/documents/policy_areas/learning_and_teaching/Triennial%20Assurance%20visit%20leaflet%20English.pdf

⁷ Gellir adolygu'r broses yn sgil ein rôl fel corff rheoleiddio.

36. Rydym o'r farn y dylai casglu safbwyntiau myfyrwyr fod ymhlith rolau'r corff llywodraethu, ac y dylai'r corff ddangos sut y mae wedi casglu'r safbwyntiau hynny wrth gyflwyno cais Cynllun Ffioedd a Mynediad. Yng Nghymru, cyflawnir hyn drwy:
- (i) Gynnwys cynrychiolaeth o blith y myfyrwyr ar y corff llywodraethu ac ar bwyllgorau perthnasol o fewn y sefydliad;
 - (ii) Adroddiad ar y deialog blynyddol rhwng y sefydliad a'r corff myfyrwyr, ee drwy'r adroddiad ansawdd blynyddol (AQR). Byddai'n arfer da i'r corff myfyrwyr gynnwys diffiniad o fewn y ddogfen o'i ganfyddiad o ansawdd ac anghenion rhesymol myfyrwyr⁸;
 - (iii) Gofyniad i bob sefydliad rheoleiddiedig gael siarter i fyfyrwyr;
 - (iv) Cadarnhau bod canlyniadau'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol wedi cael eu harchwilio, a bod cynlluniau gweithredu wedi cael eu rhoi ar waith gyda'r corff myfyrwyr;
 - (v) Cynnwys myfyrwyr fel cymheiriaid adolygu yn yr adolygiad allanol a gomisiynir gan y corff llywodraethu, a thrwy ymgysylltu â'r corff myfyrwyr drwy'r adolygiad allanol;
 - (vi) Ymgysylltu â'r corff myfyrwyr drwy ymweliadau sicrwydd teirblynyddol CCAUC.

Yn ogystal â hyn, ynghyd â Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae'r myfyrwyr yn:

- (vii) aelodau o UKSCQA er mwyn goruchwyllo datblygiad gofynion rheoleiddio sylfaenol;
- (viii) gallu adrodd cwynion am ddarparwydd unigol, er mwyn cynnal ymchwiliad iddynt, drwy unrhyw fecanwaith codi pryderon a fabwysiedir.

Mae angen i sefydliadau myfyrwyr sicrhau eu bod yn cynrychioli'r corff amrywiol o fyfyrwyr, er mwyn sicrhau bod anghenion pob math o fyfyrwyr yn derbyn ystyriaeth briodol wrth iddynt gymryd rhan yn y prosesau hyn, ac wrth greu Cynlluniau Ffioedd a Mynediad.

Trefniadau cryfach i sicrhau safonau gradd a'r gallu i'w cymharu ar draws y DU i raddau rhesymol, o dan arweiniad cyrff sy'n cynrychioli'r sector

37. Caiff gwaith yn y maes hwn ei ystyried gan UKSCQA, sy'n cynghori ynghylch cynnydd a deilliannau, ac sy'n anelu i sicrhau bod gwerth cymwysterau ar draws y DU yn cael ei gynnal. Mae hyn yn cynnwys ceisio deall gwelliannau gradd yn erbyn chwyddiant gradd. Hyd yma, mae gwaith yn y maes hwn wedi cynnwys y canlynol:
- Gwaith Universities UK a GuildHE ar [Ddeall Algorithmau Graddau](#);
 - Cyhoeddi [Dosbarthiad Graddau'r DU: Datganiad o fwriad](#);
 - Gwaith Universities UK a GuildHE ar chwyddo / gwella graddau;
 - Gwaith ar felinau traethawd, twyll drwy contract a llên-ladrata;
 - Datblygu gwaith AU ar arholi allanol, gan gynnwys gwybodaeth am ddatblygiad proffesiynol a graddnodiad.
38. Mae datganiad o fwriad y DU yn cyfleu ymrwymiad i ddiogelu gwerth graddau'r DU. Y mae wedi'i lofnodi gan grwpiau sy'n cynrychioli'r sector ac wedi'i gefnogi gan yr UKSQA. Drwy'r datganiad hwn, mae sefydliadau'n ymrwymo i:

⁸ Efallai y bydd CCAUC yn gofyn am gopiâu o'r dogfennau hyn cyn cynnal ymweliadau teirblynyddol.

- Sicrhau bod asesiadau'n parhau i ymestyn a herio'r myfyrwyr;
 - Adolygu ac esbonio sut y aiff dosbarthiadau gradd terfynol eu cyfrifo;
 - Cefnogi a chryfhau'r system arholwyr allanol;
 - Adolygu a chyhoeddi data a gwaith dadansoddi ar ganlyniadau gradd myfyrwyr.
39. Mae'r ddogfen yn cadarnhau bod y datganiad yn cael ei sicrhau yng Nghymru drwy'r Fframwaith Asesu Ansawdd, ac elfennau o'r adolygiad sicrwydd ansawdd allanol. Bydd sefydliadau rheoleiddiedig yng Nghymru yn cyhoeddi datganiadau sy'n cyfleu canlyniadau adolygiad mewnol o safonau gradd erbyn 2019/20.

Ymyrraeth gyflym ac wedi'i chynllunio'n arbennig lle bo angen.

Gweithdrefnau cwyno

40. Mae CCAUC wedi datblygu gweithdrefn ar gyfer [Cwynion ynghylch sefydliadau \(gan gynnwys pryderon ynghylch safonau ac ansawdd\)](#). Mae'r broses yn galluogi unrhyw un sy'n ymwybodol o faterion yn gysylltiedig ag ansawdd addysg fel y'i diffinnir o dan Adran 18(2) o Ddeddf 2015 (hy, ansawdd sydd, neu'n debygol o ddod, yn annigonol) i godi hynny'n uniongyrchol â CCAUC.
41. Mae hyn yn cynnwys materion sy'n gysylltiedig â safonau a phrofiadau academaidd myfyrwyr. Mae'n rhaid i'r mater hefyd effeithio ar grŵp o fyfyrwyr yn hytrach nag unigolyn, neu fod â photensial i wneud hynny. Dylai'r mater hefyd fel arfer fod wedi cael ei godi drwy weithdrefnau'r sefydliad ei hun, cyn gwneud cwyn wrth CCAUC.
42. Yn y lle cyntaf, bydd swyddogion CCAUC yn cyflawni unrhyw waith a ystyrir yn angenrheidiol yn gysylltiedig â chwynion ynghylch ansawdd. Gallai hyn gynnwys ymchwiliad rhagarweiniol i'r mater, os tybir bod hynny'n briodol. Os ystyrir bod angen cynnal ymchwiliad llawn o ansawdd, bydd CCAUC fel arfer yn cyfeirio'r mater i sylw'r QAA. Bydd yr ymchwiliad yn arwain at adroddiad, fydd fel arfer yn cael ei gyhoeddi ar wefan CCAUC cyn pen 30 diwrnod ar ôl ei lunio.
43. Os bydd sefydliadau'n tybio bod rheswm i gredu bod ansawdd y ddarpariaeth yn annigonol neu'n debygol o ddod yn annigonol, fel y nodir drwy eu prosesau eu hunain, gan gynnwys drwy gwynion, mae'n rhaid trin y digwyddiad hwnnw fel digwyddiad hysbysadwy, a hysbysu CCAUC ar y cyfle cyntaf.

Canllawiau

44. Yn ogystal â hyn, o dan Ddeddf 2015, mae gan CCAUC bwerau i gyhoeddi neu gymeradwyo canllawiau ar faterion sy'n berthnasol i wella neu gynnal ansawdd addysg a ddarperir gan (neu ar ran) sefydliadau rheoleiddiedig. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar faterion y bydd CCAUC yn eu hystyried wrth benderfynu a yw ansawdd addysg yn annigonol (neu'n debygol o ddod yn annigonol). Mae'n rhaid i CCAUC ymgynghori ar ganllawiau o'r fath, ac mae'n rhaid i gyrrff llywodraethu sefydliadau rheoleiddiedig wedyn roi ystyriaeth iddynt.

Pwyllgor Asesu Ansawdd CCAUC

45. Mae Pwyllgor Asesu Ansawdd CCAUC yn cynghori CCAUC ynghylch materion sy'n gysylltiedig ag ansawdd sydd yn (debygol o ddod yn) annigonol, fel y nodir yng Nghylchlythyr W19/05HE. Mae hyn yn cynnwys cynghori ynghylch canllawiau cyn ymgynghori, ac ar faterion sy'n codi drwy brosesau eraill fel Cynlluniau Ffioedd a Mynediad, yr adolygiad teirblynyddol, ac ymgysylltiadau eraill â sefydliadau.

Gwarchod enw da brand addysg uwch y DU ar raddfa ryngwladol, gan gynnwys sicrwydd ar gyfer addysg draws-wladol

46. Cyflawnir hyn drwy ffurfio'r UKSCQA, sy'n goruchwyllo gofynion rheoleiddio sylfaenol cyffredin drwy'r DU.
47. Bydd CCAUC yn cydweithio â'r QAA a'r sector i sicrhau y cedwir goruchwyliaeth briodol dros ddarpariaeth draws-wladol, naill ai drwy gynnal ymweliadau â gwledydd tramor ac/neu drwy astudiaethau achos.

Gwybodaeth ychwanegol

48. Bydd CCAUC yn parhau i adolygu'r Fframwaith Asesu Ansawdd. Bydd hyn yn cynnwys ystyried datblygiadau drwy'r DU yn gysylltiedig ag ansawdd os ydynt yn effeithio ar rôl CCAUC fel corff rheoleiddio. Bydd hyn yn galluogi gwerthusiad o'r canlynol:
- a yw'r Fframwaith yn bodloni anghenion Cymru;
 - a oes angen cyflwyno unrhyw newidiadau;
 - a ddylid canolbwyntio mwy ar welliant parhaus;
 - a oes angen addasu elfennau o'r Fframwaith yn sgil newidiadau yn rhannau eraill o'r DU;
 - a ellid ymgorffori elfennau o arfer da yn y Fframwaith.
49. Mae CCAUC hefyd yn cydnabod y bydd anghenion rhesymol y myfyrwyr yn newid dros amser, ee, mewn ymateb i dechnolegau neu dulliau darparu newydd. Mae hyn yn golygu y gallai fod angen i'r Fframwaith hefyd esblygu i fod yn ystyriol o'r newidiadau hyn.

Atodiad A

Dangosyn 1. Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru

Fframwaith Asesu Ansawdd				
Porth	Trefniadau ar gyfer darparwyr sefydledig	Ymyrraeth gyflym sydd wedi'i chynllunio'n arbennig	Safonau a Chymaroldeb Graddau	Enw Da yn Rhyngwladol
<ul style="list-style-type: none">• Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru	<ul style="list-style-type: none">• Trefniadau adolygu ar sail risg• Craffu ar ddata• Sicrwydd blynyddol gan y corff llywodraethu.• Ymweliadau teirblynyddol• Gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr	<ul style="list-style-type: none">• Proses gwyno CCAUC• Canllawiau• Pwyllgor Asesu Ansawdd CCAUC	<ul style="list-style-type: none">• Deall Algorithmau Graddau• Chwyddo / Gwella Graddau• Dosbarthiad Graddau ledled y DU: datganiad o fwriad• Datganiadau sefydliadol ar safonau gradd• Arholi allanol, datblygiad proffesiynol a graddnodi	<ul style="list-style-type: none">• Pwyllgor Sefydlog y DU ar gyfer Asesu Ansawdd• Goruchwyliaeth draws-wladol